# Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd

Lleoliad:
**Ystafell Bwyllgora 3 - y Senedd**

Dyddiad:
**Dydd Mercher, 11 Mehefin 2014**

Amser:
**09.20**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:
**Alun Davidson**
Clerc y Pwyllgor
029 2089 8639
Pwyllgorac@cymru.gov.uk

## Agenda

Rhag-gyfarfod anffurfiol (09:20 - 09:30)

### 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

### 2 Newid yn yr hinsawdd - grŵp trafod (09:30-10:30) (Tudalennau 1 - 9)

James Byrne, Ymddiriedolaethau Natur Cymru
Jessica McQuade, WWF Cymru
Lila Haines, Oxfam Cymru
Gareth Clubb, Cyfeillion y Ddaear Cymru

**Egwyl (10.30-10.40)**

### 3 Newid yn yr hinsawdd - grŵp trafod (10:40-11:40)

Peter Davies, Cadeirydd Comisiwn Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd
Dr Lorraine Whitmarsh, Prifysgol Caerdydd
Iestyn Davies, Ffederasiwn Busnesau Bach
Sharon Hopkins, Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro
Clare Sain-ley-Berry, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru

## 4 Papurau i'w nodi (Tudalennau 10 - 11)

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Mai

**Cyfoeth Naturiol Cymru - Rhagor o wybodaeth yn dilyn y cyfarfod ar 7 Mai**
(Tudalennau 12 - 15)
E&S(4)-15-14 papur 1

**Polisi morol yng Nghymru - Ymateb gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd yn dilyn y llythyr a anfonwyd ym mis Mai 2014** (Tudalennau 16 - 20)
E&S(4)-15-14 papur 2

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Eitem 4

# Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 3 – y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Mercher, 21 Mai 2014** |
| Amser: | **09.30 – 11.40** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy_400000_21_05_2014&t=0&l=cy

## Cofnodion Cryno:

Aelodau'r Cynulliad:

**Alun Ffred Jones AC (Cadeirydd)**
**Mick Antoniw AC**
**Russell George AC**
**Llyr Gruffydd AC**
**Julie James AC**
**Julie Morgan AC**
**William Powell AC**
**Antoinette Sandbach AC**
**Joyce Watson AC**

Tystion:

**Leanne Bird, Cyngor Sir Ceredigion**
**James Byrne, Ymddiriedolaethau Natur Cymru**
**Ceri Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol, Gwybodaeth, Strategaeth a Chynllunio, Cyfoeth Naturiol Cymru**
**Catrin Evans, Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot**
**Julia Korn, Ecosystems and Biodiversity Adviser, Cyfoeth Naturiol Cymru**
**Steve Lucas, Ymddiriedolaeth Gwarchod Ystlumod**
**Katie-jo Luxton, RSPB Cymru**
**Rebecca Sharp, Neath Port Talbot County Council**

| Staff y Pwyllgor: | **Alun Davidson (Clerc)**<br>**Catherine Hunt (Dirprwy Glerc)**<br>**Nia Seaton (Ymchwilydd)** |
|---|---|

Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod.

## Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Cafwyd ymddiheuriadau gan Gwyn Price.  Nid oedd unrhyw ddirprwyon.

## 2 Trafodaeth ynghylch bioamrywiaeth – partneriaid Sefyllfa Byd Natur

2.1 Bu'r tystion yn ateb cwestiynau gan aelodau'r Pwyllgor.

2.2 Cytunodd Ms Luxton i ddarparu manylion am ba ddau o'r argymhellion, a nodwyd yn adroddiad y Pwyllgor Cynaliadwyedd blaenorol ar fioamrywiaeth yn 2011, a oedd wedi'u cwblhau.

2.3 Cytunodd James Byrne i ddarparu papur ar yr effaith ar balod yn Sir Benfro.

## 3 Trafodaeth ynghylch bioamrywiaeth – Cyfoeth Naturiol Cymru ac awdurdodau lleol

3.1 Bu'r tystion yn ateb cwestiynau gan aelodau'r Pwyllgor.

3.2 Cytunodd Julia Korn i ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf am ganolfan data Cyfoeth Naturiol Cymru.

## 4 Papurau i'w nodi

4.1 Nododd y Pwyllgor y cofnodion.

## 5 Llythyr gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd – Rheoli Tir yn Gynaliadwy : Camau gweithredu sy'n codi o'r cyfarfod ar 1 Mai

5.1 Nododd y Pwyllgor y llythyr.

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

# Briefing note

## Natural Resources Wales response to question from Mick Antoniw AM on number of prosecutions

*"I would like to ask you another specific question on prosecutions, which you referred to in your report. I would like to ask about the actual numbers in terms of enforcement. There were 209 prosecutions; how does that compare with previous years?"*
***Environment and Sustainability Committee, 7 May 2014.***

## 1 April 2013 to 31 March 2014

**Total number of prosecutions = 210**

The breakdown for this total in terms of **functions** is that there were :-
**44** waste prosecutions;
**21** water quality prosecutions;
**31** fisheries prosecution [this does not include individuals fishing without a valid licence but does include more serious fisheries offences];
**113** prosecutions of individuals fishing without a licence; and
**1** prosecution for illegal tree felling

In terms of **sentences**, the court has imposed the following in relation to the cases we have prosecuted:-
Fines total = £214,618
Total costs awarded to NRW = £162,526.89

The following **sentences** were also imposed (non-financial penalties):-

Conditional discharges

- In 5 cases, the court imposed a 12 month conditional discharge and in 3 cases, a 6 month conditional` discharge.

Community Punishment Orders

- A 200 hour community punishment order was imposed for one defendant.

Unpaid work/Supervision Orders

- A sentence of 200 hours unpaid work and a supervision order was ordered for one defendant.
- A sentence of 200 hours unpaid work was ordered for two defendants.

- A sentence of 300 hours unpaid work together with a 12 month supervision order.
- A sentence of 250 hours unpaid work.
- A sentence of 150 hours unpaid work.

Forfeiture

- The total number of forfeiture orders made by the court (relating to items used in illegal fishing cases) is 19.

CRASBO

- One defendant was sentenced to a CRASBO (a criminal anti social behaviour order) which prevents him from carrying, accepting, disposing or arranging the disposal of any controlled waste without a licence, an environmental permit or any other lawful authority for a period of 5 years.

Curfew Orders

- One defendant was sentenced to a curfew order for a period of 5 months between the hours of 18.30 and 05.30.

Director Disqualification

- Two defendants were disqualified as directors following conviction for a period of 10 years.
- One defendant was disqualified as director following conviction for a period of 5 years.
- One defendant was disqualified as director following conviction for a period of 3 years.
- One defendant was disqualified as director following conviction for a period of 2 years.

Prison sentences (including suspended prison sentences)

- Suspended prison sentences have been ordered in a number of cases. These include one for 4 months, one for 112 days, two terms of imprisonment for 2 years suspended for 2 years [2 separate individuals], one period of 12 months imprisonment suspended for 2 years, one defendant was sentenced to 10 months in custody, suspended for 2 years, one defendant sentenced to 12 months imprisonment suspended for 12 months, one defendants sentenced to 32 weeks imprisonment suspended for 12 months and one defendant sentenced to 16 weeks imprisonment suspended for 12 months.
- Prison sentences were imposed on 2 defendants. Both were sentenced to 4 years imprisonment on a charge of conspiracy and on a charge of money laundering, a further 12 months to run concurrently.
- Prison sentences were imposed on 2 defendants. Both were sentenced to 6 months imprisonment.

We had 8 cases where defendants were acquitted, in two cases due to our review of the case and an alternative decision taken to offer formal cautions, in another case, 2 defendants were acquitted at court and in 4 cases following trial.

**Total number of cautions issued = 23**

**Total number of enforcement notices issued = 105**

**Civil Sanctions**

We have received three Enforcement Undertakings since the formation of NRW. Two are still under review and one has been completed.

The completed matter is John Liscombe Limited a Company based in Newport. They are a manufacturer and supplier of personal protective equipment. The company registered as a packaging producer for the first time in 2013. During a routine audit of packaging data submissions, NRW identified that the company may have been obligated in previous years. The company had committed offences from 2009 to 2012 in relation to failure to register and failure to recover and recycle.

The company offered NRW an Enforcement Undertaking which included a donation of £9000 to Gwent Wildlife Trust. This amount is made up of an estimate of their avoided costs and a penalty element. The company also paid our costs of £900.

**Proceeds of Crime Act : confiscation orders**

The court has ordered 6 confiscation orders under the Proceeds of Crime Act 2002 during 1.4.13 and 31.4.14. In these cases, the court has determined that over £3.2milion has been made from the illegal waste business in those 6 cases alone. The court has gone on to determine that of the assets available to those defendants, over £550,000 is available to be confiscated. Half of this money is paid to the Home Office and NRW will receive a proportion of the remainder which is to be used in accordance with a Home Office Scheme.

This clearly demonstrates that the illegal waste business can undercut and undermine legitimate operators and divert significant sums of monies from legitimate operators in Wales. NRW is demonstrating that it will take a robust approach to illegal waste crime which has enhanced confidence in customers that appropriate action will be taken to eliminate illegal financial gain. It also acts as a significant deterrent to other potential offenders.

## 1 April 2012 to 31 March 2013

**Total number of prosecutions = 258**

The breakdown in terms of **functions** is that there were:-
**49** waste prosecutions
**1** water quality prosecution
**48** fisheries prosecutions (this does not include individuals fishing without a valid licence but does include more serious fisheries offences)
**160** prosecutions of individuals fishing without a licence

In terms of **sentences**, the court has imposed the following in relation to the cases which were prosecuted:-
Fines total = £152,233.00
Total costs awarded to EAW = £127,150.13

The following **sentences** were also imposed (non-financial penalties):-

**Conditional discharges**

- In 7 cases, the court imposed a 12 month conditional discharge and in 1 case, a 24 month conditional discharge.

**Community Punishment Orders**

- A 12 month community punishment order was imposed on one defendant which consisted of 200 hours of unpaid work.

**Remediation Orders and Compensation Orders**

- One remediation order and one compensation order was made by the courts.

**Prison sentences (including suspended sentences)**

- One defendant was ordered to serve a 4 month prison sentence for waste offences. Another defendant was sentenced to 6 months imprisonment which was suspended for 2 years for waste offences.

We had 5 cases where defendants were acquitted by the court and we withdrew 5 cases.

**Total number of cautions issued = 93**

**Civil sanctions**

During this year, three enforcement undertakings were accepted and completed. Two cases related to packaging waste matters and one concerned a fisheries case. In total, donations of £19,483.83 were made to third parties in Wales and we recovered costs in excess of £4,700.

Jojo Maman Bebe Limited made a £3000 donation to the Wildlife Trust of South and West Wales and BTCV Wales [50/50 split] and paid £790 costs. The Ben Hay Partnership made a £1000 donation to Wildlife Trust of South and West Wales and paid £3227.10 in costs [water quality case]. Roma Medical Aids Limited made a £15,483.83 donation to Woodlands Trust with £750 min costs.

**Proceeds of Crime Act: confiscation orders**

The court ordered 6 confiscation orders under the Proceeds of Crime Act 2002 during 1.4.12 and 31.3.13. Of those cases, the courts determined that over £11m has been made from the illegal waste business in those cases alone. The court has gone on to determine that of the assets available to those defendants, over £749k is available to be confiscated.

Eitem 4.2

**Alun Davies AC / AM**
**Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd**
**Minister for Natural Resources and Food**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref: E&SC 1/05/14
Ein cyf / Our ref:

Mai 23, 2014

**Alun Ffred Jones AC**

Cadeirydd y Pwyllgor Amgylchedd a
Chynaliadwyedd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Annwyl Alun

Diolch i chi am eich llythyr dyddiedig 1 Mai, mewn perthynas â'r adroddiad am yr ymchwiliad i'r polisi morol. Fel y gwyddoch, rhoddais ddatganiad llafar ar 13 Mai sef fy niweddariad chwe-misol ar faterion morol a physgodfeydd. Yn hwnnw gellais ymdrin â llawer o'r pwyntiau yn eich llythyr a rhoi gwybod i chi am y cynnydd yr ydym wedi bod yn ei wneud. Er mwyn i'r wybodaeth fod yn gyflawn, fe ailadroddaf rai o'r ymrwymiadau yn y datganiad hwnnw er mwyn ymdrin â'r pwyntiau penodol yn eich llythyr yma.

1.5 *Byddem yn ddiolchgar pe gallech roi rhagor o fanylion am sut y mae'r polisi morol yn cael ei gynnwys o fewn eich adran a Llywodraeth Cymru a sut y mae'r broses cynllunio morol yn ymwneud â'r cynigion o fewn Cynllunio Cadarnhaol a'r Bil Cynllunio Drafft.*

**Derbyn.**
Yn ystod fy natganiad ar 13 Mai diolchais i'r Pwyllgor am ei waith parhaus ac am gynnig mewnwelediad ac arweiniad. Hyderaf y bydd y Pwyllgor yn cydnabod faint o gynnydd a wnaed gennym ar faterion morol yn y flwyddyn ddiwethaf o ran yr her sylweddol hon. Rwyf wedi dod â'r Môr a Physgodfeydd at ei gilydd o fewn Llywodraeth Cymru i roi capasiti ychwanegol; rwyf wedi cyhoeddi Cynllun Gweithredu Strategol ac wedi rhoi datganiadau rheolaidd i'r Cynulliad ar ystod o fentrau penodol pwysig.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.Alun.Davies @ wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)* *Printed on 100% recycled paper*

Rwy'n cydnabod bod rheoli'n moroedd yn effeithiol yn gofyn am integreiddio priodol ar draws nifer o feysydd polisi. Rwyf wedi trafod llywodraethu morol integredig gwell gyda chyd-Weinidogion a rhoddir cefnogaeth iddo ar draws y Llywodraeth. Mae cydweithwyr yn y Cabinet wedi cytuno i sefydlu Bwrdd Llywodraethu Strategol Morol Llywodraeth Cymru i gefnogi hyn. Bydd yn cael ei sefydlu cyn toriad yr haf. Bydd yn gweithio hefyd gyda Llywodraeth y DU ar faterion perthnasol.
Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i uno'r rhyngwyneb rhwng y môr a'r tir a thrwy hynny gysylltu prosesau cynllunio morol a daearol. Fel y soniais yn fy natganiad, rwyf wedi cyfarfod â'r Gweinidog dros Dai ac Adfywio i gytuno ar ddull o weithio ar y cyd ac mae fy swyddogion yn gweithio gyda'u cydweithwyr o fewn Cynllunio i sicrhau bod y system cynllunio tir a morol yn dod at ei gilydd pan fydd hynny'n briodol. Bydd y broses cynllunio morol yn rhoi ystyriaeth i'r egwyddorion a gyflwynwyd yn ein dogfen ymgynghori ddiweddar: *Cynllunio Cadarnhaol: Cynigion i ddiwygio'r system cynllunio yng Nghymru.*

2.3 *Gofynnwn ichi roi'r wybodaeth ddiweddaraf inni am y cynnydd a wnaed gan Lywodraeth Cymru wrth adolygu'r strategaeth Rheolaeth Integredig ar Barthau Arfordirol a manylion am sut y mae'r gwaith ar y Rheolaeth Integredig ar Barthau Arfordirol yn cael ei gynnwys yn y gwaith ar y broses cynllunio morol a'r gwaith ar y Bil Cynllunio Drafft.*

**Derbyn.**
Rydym wedi ymrwymo i egwyddorion Rheolaeth Integredig ar Barthau Arfordirol. Mae gan Gynllunio Morol rôl bwysig i'w chwarae mewn perthynas â Rheolaeth Integredig ar Barthau Arfordirol. Mae gan Gynllun Morol Cenedlaethol Cymru ddyletswydd gyfreithiol i gymryd pob cam rhesymol i fod yn gydnaws â'n cynlluniau tir a byddwn yn sicrhau ei fod yn gwneud hynny. Mae fy swyddogion wedi adolygu cynlluniau ar y tir perthnasol y bydd angen i'r Cynllun Morol weithio gyda nhw. Byddwn yn trafod ein canfyddiadau gyda'r Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid Cynllunio Morol, a hefyd gyda'r awdurdodau cynllunio perthnasol. Mae gwaith yn mynd rhagddo yn y Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid Cynllunio Morol i asesu strategaeth Rheolaeth Integredig ar Barthau Arfordirol Cymru yng nghyd-destun y fframwaith polisi morol cyfredol, sy'n cynnwys cynllunio morol. Bydd yn bwysig sicrhau bod yr holl brosesau cynllunio a'r dulliau rheoli perthnasol yn ystyried egwyddorion Rheolaeth Integredig ar Barthau Arfordirol.

3.4 *O ystyried maint y dasg hon a'r ymrwymiadau eraill ar gyfer polisi morol a wnaed yn y Cynllun Gweithredu Strategol Morol a Physgodfeydd, byddem yn gofyn ichi barhau i adolygu sut y caiff adnoddau eu darparu ar gyfer y camau gweithredu hyn, a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am y cynnydd tuag at darged 2015.*

**Derbyn.**
Byddaf yn parhau i edrych ar draws fy mhortffolio i geisio rhyddhau adnoddau ychwanegol i wneud cynnydd sydd hyd yn oed yn fwy effeithiol.
Byddaf yn sicrhau ein bod yn rhoi gwybod i'r Pwyllgor am gyflawni tasgau allweddol i gyrraedd y targed hwn. Rwy'n bwriadu rhoi diweddariad pellach bob chwe mis ynghylch y cynnydd gyda chyflenwi eitemau yn y Cynllun Gweithredu Strategol.

*4.4 O ystyried y diffyg eglurder ynghylch yr amserlen ar gyfer cwblhau'r asesiad a'r amser sydd ar gael i gyrraedd targed 2016 (rhwydwaith o safleoedd sy'n gydlynol yn ecolegol yn ei le erbyn 2016), byddai'n ddefnyddiol pe gallech gadarnhau i'r Pwyllgor eich bod yn hyderus y cyrhaeddir y targed hwn.*

*4.5 At hynny, gofynnwn i chi ddarparu amserlen fanwl inni ar gyfer cwblhau'r asesiad a'r camau gweithredu wedi hynny er mwyn neilltuo unrhyw safleoedd ychwanegol.*

**Derbyn**

Rwy'n dal wedi ymrwymo i sicrhau bod Cymru yn gwneud ei chyfraniad at rwydwaith cynrychioliadol a chydlynol o Ardaloedd Morol Gwarchodedig erbyn diwedd 2016, ac wrth wneud hynny yn cyflawni ei rhwymedigaethau o dan Gyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol. Rwy'n hyderus y byddwn yn cyflawni hyn oherwydd bod cyfres Cymru o safleoedd eisoes yn gwneud cyfraniad sylweddol i rwydwaith yr Ardaloedd Morol Gwarchodedig.

Ond er mwyn sicrhau bod ein cyfraniad i'r Rhwydwaith o Ardaloedd Morol Gwarchodedig yn gydlynol o safbwynt ecolegol rydym yn gweithio'n agos gyda Chyfoeth Naturiol Cymru, gweinyddiaethau eraill y DU, eu cyrff cadwraeth natur statudol a'r Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur i gynnal archwiliad o Rwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig y DU. Bydd hyn yn ein galluogi i asesu ein cyfraniad presennol i'r rhwydwaith yn wrthrychol ac yn nodi a oes unrhyw fylchau yn bodoli y bydd angen i ni eu llenwi i gwblhau ein rhwymedigaethau. Mae'r gwaith hwn ar hyn o bryd ar y trywydd iawn i gael ei gwblhau yn hwyr yn ystod Haf 2015. Mae cynnal archwiliad o'r holl Ardaloedd Morol Gwarchodedig yn y DU, gan gynnwys rhai presennol a rhai arfaethedig, yn gymhleth a bydd y timau dan sylw yn datblygu amserlen prosiectau dros yr haf ac rwy'n gobeithio y bydd hon ar gael yn yr Hydref.

Yn y cyfamser, rydym eisoes yn gweithio i wella ein rhwydwaith ymhellach drwy Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig ychwanegol ar gyfer adar y môr, ac rydym hefyd yn gweithio i weld os gallwn nodi Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ar gyfer llamhidydd yr harbwr.

*4.7 Gofynnwn ichi am y wybodaeth ddiweddaraf am y cam gweithredu sy'n gysylltiedig â'r argymhelliad hwn (ymgysylltu â phroses Parth Cadwraeth Morol ar y môr).*

**Derbyn**

Mae swyddogion yn trafod ystyriaethau ar gyfer mwy o Barthau Cadwraeth Morol gyda Defra. Mae Defra yn ystyried 37 o Barthau Cadwraeth Morol dros dro, ac mae rhai ohonynt yn ein dyfroedd morol, ar gyfer ei ail gyfran o ddynodiadau. Nid oes penderfyniad wedi cael ei wneud eto ynghylch pa safleoedd a gynigir ac yr ymgynghorir yn eu cylch yn Ionawr 2015. Rydym yn cadw mewn cysylltiad agos iawn â Defra a byddwn yn sicrhau bod rhanddeiliaid Cymru yn cael eu diweddaru'n fanwl ac yr ymgynghorir â nhw cyn gynted ag y bydd unrhyw ddatblygiadau pendant yn digwydd.

*4.10 Fodd bynnag, byddem yn ddiolchgar pe gallech gadarnhau y cynhelir ymgynghoriad â'r rhanddeiliaid ar yr egwyddorion a rennir (ar gyfer rheoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig) ac ichi amlinellu amserlen ar gyfer ymgynghoriad o'r fath.*

**Derbyn**

Gallaf gadarnhau bod ymgynghoriad ar egwyddorion a rennir ar gyfer Rheoli Ardaloedd Morol Gwarchededig eisoes wedi digwydd. I gydnabod yr angen i sicrhau bod ein Hardaloedd Morol Gwarchodedig yn cael eu rheoli'n dda mae Llywodraeth Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru wedi cytuno ar nifer o egwyddorion

cyffredin.  Mae hyn yn cynnwys sut y byddwn yn gweithio gyda'n gilydd i fwrw ymlaen â'r gwaith sydd ei angen i wella effeithiolrwydd y gwaith o reoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig ac yn y pendraw gyflwr ein Hardaloedd Morol Gwarchodedig. Cafodd yr egwyddorion hyn eu rhannu gydag aelodau o Grŵp Ffocws y Rhanddeiliaid ym mis Rhagfyr 2013.  I ddilyn hyn, rydym wedi sefydlu Grŵp Llywio Ardaloedd Morol Gwarchodedig, y trefnwyd iddo gyfarfod ym mis Mehefin, a fydd yn defnyddio'r egwyddorion fel sail ar gyfer datblygu'r gwaith hwn.  Yn ogystal, wrth i'r llinyn gwaith hwn ddatblygu byddwn yn parhau i ymgynghori â rhanddeiliaid gan ymgysylltu ar ystod o lefelau.

5.1.  *Mynegwyd pryder inni gan Gymdeithas Pysgotwyr Cymru a Bangor Mussels Producers Ltd  ynghylch cywirdeb adroddiad Erthygl 17 a luniwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru (i gydymffurfio â gofynion y Gyfarwyddeb Cynefinoedd). Nodwn fod Cyfoeth Naturiol Cymru wedi bod yn trafod gyda'r sefydliadau hyn er mwyn mynd i'r afael â'i bryderon, a gobeithiwn fod unrhyw broblemau a godwyd wedi'u datrys.*

**Derbyn**
Gwnaed nifer o addasiadau i Adroddiad Erthygl 17 Cymru i gymryd y pryderon a godwyd i ystyriaeth ac mae'r rhain wedi cael eu trosglwyddo i'r JNCC i'w gynnwys yn adroddiad y DU.

*6.4 Er mwyn rhoi sicrwydd i ni (ymgysylltu â rhanddeiliaid), rydym yn gofyn i chi gadarnhau'r canlynol:*
*a) sut yr ydych yn mynd i sicrhau na chaiff y momentwm a gafwyd drwy'r broses o adolygu Parthau Cadwraeth Morol ei golli;*
*b) a ydych yn bwriadu sefydlu dull parhaol ar gyfer ymgysylltiad; ac (os felly)*
*c) y camau y byddwch yn eu cymryd i sefydlu dull o'r fath.*

**Derbyn**
Byddaf yn cyhoeddi cyn bo hir iawn mewn datganiad ysgrifenedig ddull newydd o ymgysylltu'n allanol ynghylch polisi morol.  Bydd hyn yn sicrhau y bydd yr ystod eang o grwpiau sydd â diddordeb ym moroedd Cymru yn derbyn gwybodaeth reolaidd am gynnydd.  Byddant hefyd yn gallu cymryd rhan yn y gwaith o ddatblygu ein gwaith; ar sail gorchwyl a gorffen.  Byddwn yn datblygu ar gynrychiolaeth graidd o blith grwpiau diddordeb presennol i ffurfio grŵp strategol ar gyfer polisi morol a'i gyflenwi.  Rwyf am i'r grŵp newydd hwnnw ddatblygu ar y momentwm cadarnhaol a'r mewnbwn a ddeilliodd o'r adolygiad o'n dull o ymdrin â Pharthau Cadwraeth Morol.

7.4 *Rydym yn bwriadu parhau i adolygu'r trefniadau hyn o ran casglu data a thystiolaeth wrth iddynt fynd yn eu blaen, a gofynnwn ichi roi'r wybodaeth ddiweddaraf inni wrth i'r datblygiadau hyn fynd rhagddynt.*

**Derbyn**
Er mwyn sicrhau bod cynllunio morol yn seiliedig ar yr wybodaeth orau sydd ar gael, mae fy swyddogion i wedi cychwyn Ymarferiad Cwmpasu Strategol a fydd yn cyflwyno ac adolygu'r  dystiolaeth sy'n berthnasol i gynllunio morol ar lefel Cymru.  Byddwn yn rhannu'r adroddiad drafft yn eang er mwyn sicrhau bod pawb sydd â diddordeb yn cael cyfle i wneud sylwadau a chyfrannu at y sylfaen dystiolaeth bwysig hon.  Gan ddatblygu ar hyn, ac ar yr un pryd, byddwn yn rhannu porth

tystiolaeth morol a fydd yn sicrhau bod setiau data gofodol morol perthnasol ar gael i helpu i lywio'r gwaith o ddatblygu gweledigaeth ac amcanion ar gyfer Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru.  Bydd y gwaith proses hwn hefyd yn rhoi gwybodaeth ar gyfer y  gwaith o ddatblygu strategaeth dystiolaeth forol i Gymru.  Byddaf yn sicrhau bod y Pwyllgor yn cael gwybodaeth wrth i'r mentrau hyn symud ymlaen.

8.2 *Nawr fod yr ymgynghoriad (ar y rhaglen fonitro ar gyfer cyfarwyddeb fframwaith y strategaeth forol) wedi cau, byddem yn ddiolchgar pe gallech roi'r wybodaeth ddiweddaraf am sut y caiff y trefniadau monitro eu datblygu.*

**Derbyn** Byddaf yn cyhoeddi ein hymateb i'r ymgynghoriad yn fuan.  Bydd y rhaglen fonitro yn cael ei sefydlu erbyn 15 Gorffennaf, a fydd yn nodi manylion ynghylch sut y bydd y monitro yn digwydd.  Rydym yn gweithio'n agos gyda Chyfoeth Naturiol Cymru a sefydliadau perthnasol eraill i sicrhau bod y trefniadau monitro ar waith.

*9.1-9.3 Rydym yn ymwybodol o'r cynigion ar Orchmynion Rheoleiddio a Gorchmynion Unigol ym Mhapur Gwyn Bil yr Amgylchedd.*
*Er nad oedd y materion hyn yn rhan o ymchwiliad cychwynnol y Pwyllgor, roeddem yn siomedig o glywed yn ystod y sesiynau dilynol nad oedd y diwydiant o'r farn yr ymgynghorwyd ag ef nac y gwrandawyd arno wrth ddatblygu'r cynigion hyn.*
*Gofynnwn y rhoddir ystyriaeth ddyledus i'r pryderon hyn wrth ichi barhau gyda'ch gwaith o ddatblygu cynigion ar gyfer Bil yr Amgylchedd:*

**Derbyn yn rhannol**
Er mwyn cyflawni ein targedau ar gyfer twf cynaliadwy dyframaethu dros y 6 mlynedd nesaf, mae angen i ni sicrhau y gallwn roi Gorchmynion Rheoleiddio a Gorchmynion Unigol yn y ffordd fwyaf effeithiol.  Y ffordd orau y gallwn wneud hyn yw drwy newidiadau deddfwriaethol arfaethedig ym Mil yr Amgylchedd.  Buom yn ymgynghori'n benodol ynghylch y rheiny fel rhan o broses Bil yr Amgylchedd. Mae fy swyddogion mewn deialog weithredol gyda'r ffermwyr cregyn gleision gan fy mod yn cydnabod yr angen i weithio gyda nhw.  Efallai na fydd consensws llwyr ar hyn, ond rydym yn sicr mewn deialog weithredol ac adeiladol gyda'r diwydiant.  Byddwn yn parhau i weithio gyda'r diwydiant i ddod o hyd i'r ffyrdd gorau o symud ymlaen gan fy mod yn parhau i fod wedi ymrwymo i sicrhau ein bod yn cael y gwerth gorau o'r gweithgaredd cynaliadwy hwn i economi Cymru.

Yn gywir



**Alun Davies AC / AM**
Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd
Minister for Natural Resources and Food